Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **03.11.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Eithriadau o ran cofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. A ninnau yr arolygiaeth annibynnol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ein rôl yw codi safonau a gwella'r ansawdd ar draws y sector.

Rydym yn cefnogi ymdrechion i egluro disgwyliadau o ran cofrestru gofal plant, gan sicrhau eu bod yn aros yn gymesur ac yn canolbwyntio ar ddiogelu tra'n adlewyrchu gwirioneddau bywyd teuluol modern.

Er ein bod yn cytuno'n fras â'r newidiadau arfaethedig, rydym yn amlygu pryderon am ganlyniadau anfwriadol posibl, beichiau ar ddarparwyr a dibyniaeth ar hunanddatgan yn y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Rydym yn pwysleisio'r angen am arweiniad clir, rheoleiddio cymesur, diogelu ar gyfer y plant mwyaf bregus, tegwch i ddarparwyr bach, a chyfleoedd i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n eich disgrifio chi? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

| | |
|---|---|
| Rwy'n aelod o gorff ymbarél neu'n gweithio i awdurdod lleol | |
| Rwy'n gweithio yn y sector gofal plant, gwaith chwarae neu weithgareddau | |
| Rwy'n gwirfoddoli yn y sector gofal plant, chwarae neu weithgareddau | |
| Rwy'n rhiant neu'n ofalwr plentyn 0-12 oed | |
| Rwy'n rhiant neu'n ofalwr plentyn dros 12 oed | |
| Rwy'n blentyn | |

| | |
|---|---|
| Dim un o’r uchod | x |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | |

Cyn llenwi’r ffurflen hon, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni a ydych chi wedi cymryd rhan mewn un o’r grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn rhan o’r ymgynghoriad hwn, neu mae disgwyl i chi gymryd rhan?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | | **Nac ydw** | x |

**Cwestiynau’r ymgynghoriad**

**Rhan A – Adolygu’r Gorchymyn Eithriadau**

**Cwestiwn 1: A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno na ddylai unigolyn weithredu fel gwarchodwr plant os yw: yn rhiant, neu mae ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn; yn rhiant maeth i’r plentyn; yn berthynas; neu’n unigolyn sy’n byw yn yr un cartref â’r plentyn?**

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | x | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Mae Estyn yn cytuno bod yr eglurhad arfaethedig yn gwahaniaethu’n fuddiol rhwng trefniadau gofal teuluol a gwarchod plant ffurfiol. Ym marn Estyn, mae hyn yn osgoi rheoleiddio bywyd teuluol bob dydd yn ddiangen tra’n cynnal cysondeb gyda disgwyliadau diogelu a sefydlwyd eisoes o fewn y sector gofal plant.<br>Ym marn Estyn, mae hyn yn osgoi rheoleiddio bywyd teuluol arferol yn ddiangen. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb â disgwyliadau diogelu presennol yn y sector gofal plant. | | | | | | | |

**Cwestiwn 2: A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylid caniatáu i berthnasau neu unigolyn sy’n byw yn yr un cartref â’r plentyn weithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy’n perthyn neu blant sy’n byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o’r amodau canlynol yn cael eu bodloni:**

- **Nid nhw yw rhieni’r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant,**
- **Nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn,**

- **Nid yw'r gofal yn cael ei ddarparu yng nghartref y plentyn, ac**
- **Mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn.**

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **x** | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau eglurder ynglŷn â'r cynnig hwn.

Ym marn Estyn, bydd yn bwysig ystyried p'un a fyddai gwarchodwyr plant yn fodlon parhau i ymgymryd â'r rôl hon pe na baent yn gallu gofalu am eu plant eu hunain ar yr un pryd.

Mae Estyn yn ystyried ei bod yn bwysig fod yr amodau'n cael eu hamlinellu'n glir fel nad yw rhieni sydd hefyd yn warchodwyr plant, ac sy'n darparu gofal ar gyfer teuluoedd eraill o fewn eu cartrefi eu hunain, yn cael eu rhoi dan anfantais neu'n cael eu heithrio'n anfwriadol o gynnig y ddarpariaeth werthfawr hon.

Ym marn Estyn, mae arweiniad clir yn hanfodol i osgoi canlyniadau anfwriadol a hyrwyddo tegwch i rieni a darparwyr, fel ei gilydd.

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau yn ymwneud â gwarchodwyr babanod, nanis ac *au pairs*:**

| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|
| Cysoni eithriadau yn gysylltiedig â nanis, *au pairs* a gwarchodwyr babanod | | | X | |
| Cael gwared ar y terfyn amser o 6pm-2am ar gyfer gwarchodwyr babanod | | | x | |
| Cyfyngu ar nifer y teuluoedd y gall gwarchodwr babanod ofalu amdanynt ar unwaith i 2 deulu | | | x | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amodi y dylai'r trefniadau gofal gael eu gwneud rhwng y darparwr a rhieni'r naill deulu neu'r llall | | | x | |
| Ar gyfer gofal ar safleoedd domestig, nodi y dylai'r gofal gael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y naill deulu neu'r llall | | | x | |
| Ar gyfer safleoedd annomestig, amodi bod y gofal yn cael ei ddarparu ar safle annomestig (a allai gynnwys gwesty neu dŷ gwely a brecwast o ddewis y rhieni, er enghraifft) | | | x | |

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cefnogi egwyddor alinio diffiniadau, gan fod hyn yn cynyddu eglurder ac yn adlewyrchu anghenion teuluoedd modern yn well. Mae Estyn yn cytuno bod cael gwared ar y terfyn amser yn cydnabod patrymau gweithio hyblyg llawer o deuluoedd. Gallai cyfyngu darpariaeth i ddau deulu ddarparu amddiffyniad cymesur yn erbyn trefniadau gofal mawr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.

Ym marn Estyn, mae cyfleu'r amodau ar safleoedd yn glir yn briodol a buddiol. Mae Estyn yn ystyried y bydd mwy o arweiniad yn hanfodol i rieni a darparwyr ddeall ffiniau cyfrifoldeb. Gallai arweiniad clir a hygyrch helpu i atal dryswch, lleihau canlyniadau anfwriadol, a chefnogi atebolrwydd ar draws pob lleoliad.

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwr gofrestru i fod yn ddarparwr gofal dydd os yw'n darparu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc sy'n 10 oed ac yn hŷn, a phan fydd darpariaeth ar gyfer plant 10 oed wedi'i hanelu at eu cynorthwyo â chyfnodau pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd ynghyd ag anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol?**

| Cytuno | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | x | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno bod y cynnig yn adlewyrchu anghenion datblygiadol plant hŷn a gallai gynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau yn seiliedig ar bontio, yn enwedig ar gyfer y rhai a allai fod yn fwy bregus.

| |
|---|
| Mae Estyn yn nodi bod angen ystyried yn ofalus pan fydd darpariaeth o'r fath yn gorgyffwrdd â gwasanaethau cofrestredig, fel gofal ar ôl yr ysgol, i osgoi dryswch neu ddyblygu cyfrifoldebau.<br><br>Rhaid i ddiogelu aros yn flaenoriaeth, yn enwedig oherwydd y gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys plant sydd angen cymorth ychwanegol. Bydd arweiniad clir yn bwysig i sicrhau diogelu cyson ar draws pob math o ddarpariaeth. |

**Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno:**

**Mai *2 awr* yw'r hyd amser priodol y dylai plant 4 oed ac yn iau allu mynychu gweithgareddau hyfforddi a thiwtora heb eu rhieni a heb iddi fod yn ofynnol i'r darparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd?**

| Cytuno | x | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Mae Estyn yn nodi y gallai trothwy dwy awr fod yn rhesymol, yn dibynnu ar natur y gweithgareddau a gynigir. Er enghraifft, mae hyfforddi neu diwtora ar gyfer plant o dan 4 oed yn annhebygol o ymestyn y tu hwnt i'r amser hwn.<br><br>Mae Estyn yn ystyried ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gallai'r cynnig hwn effeithio ar ddarparwyr sy'n cynnig darpariaeth yn seiliedig ar chwarae. Byddai'n fuddiol egluro p'un a yw darparwyr o'r fath yn disgyn o fewn cwmpas y rheoliadau arfaethedig a sut byddai'r trothwy dwy awr yn berthnasol yn y cyd-destunau hyn. | | | | | | | |

***4 oed ac yn iau*** **yw'r ystod oedran priodol y dylai plant gael eu trin ar wahân o ran yr eithriad hyfforddi a thiwtora**

| Cytuno | x | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Mae Estyn yn ystyried bod y trothwy arfaethedig, sef 4 oed ac yn iau, yn wahaniaeth priodol ar gyfer yr eithriad hyfforddi a thiwtora. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnod datblygiadol plant iau a hyd cyfyngedig a chwmpas gweithgareddau hyfforddi neu diwtora sy'n nodweddiadol addas ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae hyfforddi a thiwtora ar gyfer plant o dan bedair oed yn annhebygol o ymestyn y tu hwnt i ddwy awr, sy'n gwneud y cyfnod amser arfaethedig yn rhesymol. | | | | | | | |

| |
|---|
| Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried sefyllfa darparwyr sy'n cynnig mathau eraill o ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn, fel gweithgareddau yn seiliedig ar chwarae. Bydd canllawiau clir a hygyrch yn hanfodol i helpu'r darparwyr hyn i ddeall p'un a yw eu gwasanaethau o fewn cwmpas yr eithriad. Bydd hyn yn helpu osgoi dryswch, yn atal canlyniadau anfwriadol, ac yn sicrhau mynediad parhaus at gyfleoedd dysgu cynnar gwerthfawr i blant iau. |

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r categorïau hyfforddi a thiwtora o fewn y gorchymyn eithriadau i'r canlynol:**

- **(a) chwaraeon;**
- **(b) y celfyddydau mynegiannol a chreadigol;**
- **(c) cymorth addysgol – yn cynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, y dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles;**
- **(ch) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol?**

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **x** | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cydnabod bod y categorïau arfaethedig ar gyfer hyfforddi a thiwtora wedi'u diffinio'n glir ac yn debygol o gefnogi cysondeb ar gyfer darparwyr sy'n gweithio gyda phlant hŷn.

Mae Estyn yn ystyried nad yw'r derminoleg bresennol yn adlewyrchu anghenion datblygiadol plant iau yn llawn, yn enwedig plant 2-4 oed, a allai ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae gweithgareddau fel tiwtora neu gymorth addysgol ffurfiol wedi'u cysylltu â phlant hŷn, gan amlaf. Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu terminoleg sy'n fwy priodol i oedran neu egluro cymhwyster oedran o fewn yr eithriad. Byddai hyn yn cynorthwyo darparwyr i benderfynu p'un a yw eu gwasanaethau'n disgyn o fewn cwmpas y categori gofal plant ac yn helpu osgoi dryswch.

**Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai darparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd os yw'n cynnig hyfforddi a thiwtora mewn mwy nag _un_ o'r mathau o weithgaredd?**

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **x** | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**Sylwadau ategol**

Nid yw Estyn yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol cofrestru fel darparwr gofal dydd pan fydd hyfforddi a thiwtora yn rhychwantu mwy nag un math o weithgaredd. Er y gallai'r dull hwn gefnogi cysondeb ac egluro eithriadau rheoleiddio, nid yw'r goblygiadau ar gyfer darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau cyfunol neu ddilyniannol o fewn un sesiwn yn gwbl glir eto.

Mae Estyn yn nodi y gallai fod angen mwy o arweiniad fel bod darparwyr sy'n cynnig mwy nag un math o weithgaredd o fewn un sesiwn yn glir ynglŷn â'u gofynion.

Mae Estyn yn ystyried y byddai darparu diffiniadau ac enghreifftiau clir yn helpu sicrhau bod darparwyr yn deall pryd mae angen cofrestru ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu darpariaeth.
Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr effaith ar wahanol fathau o ddarpariaeth, yn cynnwys y rhai sy'n cynnig gweithgareddau hyblyg sy'n briodol i oedran ar gyfer plant iau, i sicrhau bod y dull yn parhau i fod yn gymesur ac yn deg.

**Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os yw plant 2 oed ac yn iau yn mynychu ysgol fel disgyblion, y dylai fod yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sydd â phlant 2 oed ac yn iau yn mynychu, gofrestru fel darparwr gofal dydd?**

| Cytuno | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | x | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn nodi nad yw plant o dan 2 oed yn cael eu dosbarthu'n ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru o dan drefniadau presennol, gan nad yw addysg gynnar yn cael ei chynnig cyn i blant gyrraedd 3 oed. Nid yw ysgolion yng Nghymru yn cynnig addysg gynnar cyn i blant gyrraedd 3 oed. Cyflwynir y ddarpariaeth hon trwy 10 awr o addysg gynnar o fewn lleoliad meithrin a gynhelir neu nas cynhelir. I gynorthwyo rhieni â gofynion gofal plant, mae lleiafrif o ysgolion yn cynnig darpariaeth gofleidiol lle mae ganddynt y capasiti i wneud hynny. Yn aml, cynhelir y ddarpariaeth hon am lai na dwy awr y dydd. Mewn llawer o achosion, mae'r trefniadau hyn yn cynnig cymorth gwerthfawr i deuluoedd ac yn defnyddio cyfleusterau presennol ysgolion lle mae capasiti'n caniatáu hynny.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i effaith gofyn i'r lleoliadau hyn gofrestru fel darparwr gofal dydd. Mae hyn yn cynnwys y goblygiadau posibl i bwysau ariannol a gweinyddol baich gwaith penaethiaid ar ysgolion, a gofynion ychwanegol ar arolygiaethau (Estyn ac AGC).

Mae Estyn yn nodi y gallai fod goblygiadau ehangach i ddigonolrwydd darpariaeth leol gofal plant os na all ysgolion barhau i gynnig y math hwn o ofal plant cofleidiol o dan fframwaith rheoleiddio diwygiedig. Pan mae ysgolion yn cynnig gofal plant Dechrau'n Deg, mae'r lleoliadau hyn eisoes wedi'u cofrestru gydag AGC. Gallai ymestyn gofynion cofrestru tebyg yn ehangach gefnogi cysondeb gwell ar draws y sector a rhoi sicrwydd i deuluoedd fod yr un safonau diogelu a gofal yn berthnasol, ni waeth beth yw'r lleoliad.

Mae Estyn yn amlygu ei bod yn bwysig fod yr holl ddarpariaeth yn cynnal safonau uchel o ofal a diogelu. Bydd sicrhau disgwyliadau teg ar draws gwahanol fathau o leoliadau yn helpu cefnogi lles plant ac yn rhoi sicrwydd i rieni.

**Cwestiwn 9: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os caiff gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig ei atal trwy orfodaeth, na ddylai allu defnyddio'r eithriadau i weithredu ei ddarpariaeth am 2 awr neu lai bob dydd am y cyfnod atal?**

| Cytuno | x | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i atal darparwyr sydd wedi eu hatal rhag gweithredu o dan yr eithriad dwy awr. Mae hyn yn amddiffyniad angenrheidiol i sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cynnal ac nad yw plant yn cael eu rhoi mewn perygl yn ystod cyfnodau atal. Mae atal mynediad at y llwybr eithrio yn helpu cau bylchau posibl ac yn atgyfnerthu hyder y cyhoedd yn y system reoleiddio. Mae hefyd yn cynnal uniondeb penderfyniadau am orfodaeth ac yn sicrhau bod safonau diogelwch a lles yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob lleoliad.

**Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr sy'n cynnig darpariaeth gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau hyfforddi a thiwtora ar gyfer plant 2 oed ac yn iau, lle nad yw'r rhiant yn bresennol, gofrestru gydag AGC, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai bob dydd neu 5 diwrnod neu lai bob blwyddyn?**

| Cytuno | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | x | | Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb gan ddarparu unrhyw resymau a thystiolaeth**

Mae Estyn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau safonau diogelu cyson ar gyfer pob plentyn, yn enwedig plant sy'n 2 oed ac yn iau. Gallai gofyn i ddarparwyr gofrestru

| | |
|---|---|
| | gydag AGC, ni waeth beth yw hyd neu amlder y ddarpariaeth, helpu cynnal safonau uchel ar draws pob math o ofal lle nad yw rhiant yn bresennol.<br><br>Mae Estyn yn cydnabod y gallai gofyniad o'r fath fod â goblygiadau i gapasiti darparwr, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae argaeledd eisoes yn gyfyngedig. Gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried effaith bosibl y cynnig hwn ar ddigonolrwydd darparwr a mynediad at ofal cynnar. Bydd arweiniad clir yn bwysig i gefnogi dealltwriaeth o ba wasanaethau sy'n disgyn o fewn cwmpas cofrestru a lleihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol. |

**Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig darpariaeth gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau hyfforddi a thiwtora ar gyfer plant 2 oed ac yn iau, pan fydd rhieni'n aros ar y safle (ond nad ydynt yn bresennol yn ystod y sesiwn), gofrestru, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai neu 5 diwrnod neu lai bob blwyddyn?**

| **Cytuno** | **x** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb gan roi unrhyw resymau a thystiolaeth**

Mae Estyn yn cydnabod y rhesymu y tu ôl i'r cynnig i beidio â gwneud cofrestru'n ofynnol pan fydd rhieni'n aros ar y safle. Mewn achosion o'r fath, mae'r prif gyfrifoldeb am y plentyn yn aros gyda'r rhieni. Mae Estyn yn cydnabod, lle nad yw'r rhiant yn bresennol yn weithredol, bod y darparwr yn ysgwyddo cyfrifoldeb ymarferol am ofal yn ystod y sesiwn.
Mae Estyn yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried p'un a yw cofrestru'n briodol o hyd yn yr achosion hyn i gynnal safonau diogelu cyson.
Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r effaith bosibl ar argaeledd y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn. Gallai gofynion cofrestru ychwanegol effeithio ar gapasiti darparwr a'i barodrwydd i weithredu.

Mae Estyn yn argymell y dylid llunio arweiniad clir i helpu darparwyr a rhieni i ddeall eu cyfrifoldebau clir, a chwmpas yr eithriad.

**Cwestiwn 12: Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach ar gynnwys Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) Drafft 2026?**

**Unrhyw sylwadau eraill**

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau gohebiaeth glir a hygyrch ar gyfer rhieni am y gwahaniaeth rhwng gofal cofrestredig a gofal anghofrestredig. Bydd

| |
|---|
| hyn yn helpu rhieni i wneud dewisiadau gwybodus a deall lefel yr oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o ddarpariaeth.<br><br>Yn ychwanegol, mae Estyn yn credu ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut mae'n bwriadu monitro a gwerthuso effaith y Gorchymyn wedi iddo gael ei roi ar waith. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar fynediad at ofal plant a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.<br><br>Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i oblygiadau costau posibl i ddarparwyr a rheoleiddwyr, fel ei gilydd. Dylid asesu'r rhain yn ofalus a mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y system ddiwygiedig yn gymesur ac nad yw'n rhoi baich gormodol ar y sector. |

**Rhan B – Datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig**

**Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?**

| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|
| Caniatáu i deuluoedd gael mynediad at Ofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol i dalu am ystod well o wasanaethau lle mae'r teulu a'r darparwr yn gymwys | | | x | |
| Gwirio bod y darparwr wedi bodloni meini prawf cymeradwyo penodol, yn cynnwys gwiriadau diogelwch sylfaenol, a allai gynnig sicrwydd i rieni am eu dewis o ddarparwr | | | x | |
| Helpu datblygu dealltwriaeth well o'r sector anghofrestredig sy'n cofrestru ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, a darparu cymorth a gwybodaeth iddo | | | x | |
| **Sylwadau ategol** | | | | |

| |
|---|
| Mae Estyn yn cefnogi nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Mae ymestyn mynediad at gynlluniau cymorth ariannol, gwella sicrwydd i rieni, ac ymgysylltu â'r sector anghofrestredig yn gadarnhaol. Mae Estyn yn ystyried ei bod yn bwysig fod rhaid i'r cynllun fod yn fwy na gweinyddol. Dylai fynd ati i hyrwyddo ansawdd y ddarpariaeth, cynnal hawliau plant, a sicrhau bod safonau diogelu a diogelwch cadarn ar waith. Heb hyn, mae perygl y gallai cymeradwyo gwirfoddol arwain at ddisgwyliadau anghyson ar draws y sector. Bydd meini prawf clir, prosesau tryloyw a monitro rheolaidd yn bwysig o ran helpu sicrhau bod y cynllun yn cynnig gwerth go iawn ar gyfer teuluoedd a darparwyr. |

**Cwestiwn 14:**
**Pa rai o'r meini prawf cymeradwyo a amlinellir isod ddylai fod yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, yn eich barn chi?**

| | **Dewiswch** |
|---|---|
| Mae'n 18 oed neu'n hŷn | x |
| Mae wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng | x |
| Mae wedi cwblhau cwrs canolraddol diogelu o fanyleb Grŵp B/ lefel 2, o leiaf | x |
| Mae wedi cwblhau'r Hanfodion Gofal Plant ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau | |
| Mae wedi cael gwiriad estynedig cyfredol gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) | x |
| Nid yw wedi cael ei wahardd o weithgarwch rheoleiddiedig gyda phlant neu'n anaddas i weithio gyda phlant neu gael cysylltiad heb oruchwyliaeth â phlant | x |
| Cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall | x |
| Bydd gofyn i'r ymgeisydd wneud **hunanddatganiad**, (na fydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn mynd ar ei drywydd na'i wirio), y mae'n ei ddeall ac y bydd yn defnyddio arfer orau ar ran y ddarpariaeth yn gysylltiedig â'r canlynol:<br>• 'Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cod ymarfer diogelu', yn cynnwys arfer recriwtio diogel, gweithdrefnau cwyno ac asesiad risg.<br>• Os yw'n gweini bwyd, hylendid bwyd.<br>• Ystyried canllawiau'r sector ar arfer orau o ran staffio, safleoedd, cadw cofnodion, diogelwch plant, iechyd a lles. | x |
| **Sylwadau ategol** | |

| |
|---|
| Mae gan Estyn bryderon ynghylch dibyniaeth ar hunanddatganiad. I gynnal hygrededd, dylai AGC neu gorff annibynnol arall gynnal gwiriad cymesur os oes disgwyliad i ddarparwyr gofrestru ar gyfer y cynllun.<br><br>Dylid rhoi blaenoriaeth i wiriadau manylach gan y DBS a hyfforddiant diogelu, gan fod y rhain yn ffurfio sylfaen arfer ddiogel.<br>Mae Estyn hefyd yn cydnabod y gallai bodloni'r gofynion hyn roi beichiau ychwanegol ar ddarparwyr llai, ac felly mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu cymesur ochr yn ochr â chymorth pwrpasol i helpu'r darparwyr hyn i ymgysylltu â'r cynllun yn effeithiol. |

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw feini prawf eraill yr ydych chi'n meddwl y dylent gael eu cynnwys?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 16: Pa rai o'r nodweddion canlynol ydych chi'n meddwl y byddent yn gymesur i'w cynnwys fel rhan o reoli a goruchwylio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?**

| | **Dewiswch** |
|---|---|
| Byddai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn cael ei reoli gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). | |
| Byddai hyn yn gynllun gweinyddol sy'n golygu na fydd unrhyw farnau ansawdd gan AGC, ac ni fyddai'n ofynnol i AGC arolygu. | |
| Byddai'n ofynnol i'r darparwr cymeradwy adnewyddu bob blwyddyn, a byddai ffi flynyddol. | |
| Byddai manylion am y darparwr cymeradwy yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdodau Lleol. Wedyn, gallai darparwyr cymeradwy dderbyn cymorth, gwybodaeth, hysbysebion ac arweiniad gan yr Awdurdod Lleol, pe baent yn dymuno. | x |
| Byddai'n ofynnol i'r darparwr cymeradwy hysbysu AGC am euogfarn, rhybuddiad, newid enw, cyfeiriad neu fanylion cyswllt. | x |

| | |
|---|---|
| Ni fyddai AGC yn ymwneud ag unrhyw gŵynion o ddydd i ddydd ynglŷn â'r darparwr cymeradwy. | |
| Os bydd pryder ynghylch diogelu, ni fyddai AGC yn cynnal unrhyw ymchwiliad / arolygiad a byddai'n cysylltu â'r Awdurdod Lleol sy'n ymgymryd â'r broses ddiogelu i sefydlu'r canlyniad. Wedyn, bydd AGC yn penderfynu ar ymateb priodol o ran cymeradwyaeth barhaus. | |
| Byddai AGC yn atal cymeradwyaeth neu'n tynnu darparwr cymeradwy yn ôl o'r cynllun pe bai unrhyw ymchwiliadau diogelu Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad bod y darparwr yn amlygu, neu y gallai amlygu, un neu fwy o'r plant yn eu gofal, i risg niwed. | x |
| Byddai AGC yn gwrthod cais i'r Cynllun ac yn tynnu cymeradwyaeth yn ôl os na chaiff y meini prawf cymeradwyo eu bodloni / os nad ydynt yn cael eu bodloni mwyach. | x |
| Bydd darparwr neu ymgeisydd cymeradwy yn cael hysbysiadau am unrhyw benderfyniadau yn gysylltiedig ag atal, gwrthod cais, neu dynnu cais yn ôl, a bydd ganddo 28 diwrnod i apelio trwy gyflwyno sylwadau. | |
| Byddai AGC yn atal cymeradwyaeth ar unwaith pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. | |

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn ystyried ei bod yn bwysig bod adnoddau digonol ar gael i AGC ac awdurdodau lleol i oruchwylio a gweithredu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn effeithiol. Heb gapasiti digonol, mae perygl y gallai ansawdd a chysondeb y goruchwylio gael eu peryglu. Yn ychwanegol, mae Estyn yn amlygu bod angen eglurder ynglŷn â'r goblygiadau i ddarparwyr sy'n dewis peidio â chymryd rhan. Gallai natur wirfoddol y cynllun arwain at amrywioldeb mewn safonau neu lefelau hyder rhieni oni bai fod disgwyliadau'n cael eu diffinio a'u cyfleu yn glir.
Mae'r effaith ariannol hefyd yn gwarantu ystyriaeth ofalus. Heb gymorth priodol, gallai sefydliadau llai neu'r rhai sy'n gweithredu â chyllidebau cyfyngedig wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan, a allai effeithio ar gynhwysiant a chyrhaeddiad cyffredinol y cynllun.

**Cwestiwn 17: Pa rai o'r darparwyr hyn yr ydych chi'n credu y dylent fod yn gymwys i ofyn am gymeradwyaeth y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?**

| | **Dewiswch** |
|---|---|
| Gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd sy'n cael eu cynnal gan Awdurdod Lleol neu ysgol am 2 awr neu lai, ac ar unrhyw adeg o'r diwrnod. | x |

| | |
|---|---|
| Pob gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sy'n gweithredu'r naill ochr a'r llall o'r diwrnod ysgol am 2 awr neu lai. | x |
| Pob gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sy'n cael ei gynnal am gyfnod o 2 awr neu lai ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. | x |
| Gofal plant yn y cartref, e.e. gwarchodwyr babanod, nanis ac *au pairs*. | |
| Hyfforddi a thiwtora wyneb yn wyneb sy'n cael ei gynnal o dan yr eithriad hyfforddi a thiwtora am **fwy na 2 awr** yn y rhestr arfaethedig o weithgareddau:<br>(a) chwaraeon;<br>(b) y celfyddydau mynegiannol a chreadigol;<br>(c) cymorth addysgol – yn cynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, y dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles<br>(ch) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.<br><br>Gallai hyn gynnwys gofal plant preswyl (e.e. gwersylloedd gweithgareddau) sy'n cael eu cynnal am lai na 28 diwrnod mewn cyfnod o 365 diwrnod ac nad ydynt yn cael eu hwyluso/trefnu gan ysgolion yn ystod oriau ysgol, a lle nad yw rhieni neu ofalwyr yn bresennol. | x |
| Gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd (yn cynnwys gweithgareddau hyfforddi a thiwtora) sy'n gweithredu am 5 niwrnod neu lai bob blwyddyn. | |
| Darparwyr sy'n cynnig darpariaeth gwarchod plant neu ofal dydd ar gyfer plant 12-16 oed. | x |
| **Sylwadau ategol**<br><br>Mae hyn yn cyfrannu at ddiogelu plant trwy sicrhau bod amddiffyniadau priodol ar waith ar draws pob math o ddarpariaeth. | |

**Cwestiwn 18: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor y dylai fod gan y cynllun ffi ymuno ar gyfer darparwyr sy'n gofyn am gymeradwyaeth ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?**

| Cytuno | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Ddim yn gwybod | x |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Mae Estyn yn cydnabod y gallai codi ffi ymuno sicrhau cynaliadwyedd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Os bydd ffioedd yn cael eu hystyried, dylent fod | | | | | | | |

| |
|---|
| yn gymedrol ac nid yn waharddol. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried dull haenog neu â chymhorthdal, gan ystyried maint y darparwr a natur y gweithgareddau a gynigir.<br>Byddai hyn yn helpu hyrwyddo tegwch ac yn annog ystod eang o ddarparwyr i ymgymryd â'r cynllun.<br>Bydd hefyd yn bwysig egluro p'un a fyddai'n rhaid i sefydliadau elusennol dalu'r un ffioedd, ac os felly, p'un a ellid cynnig cymorth neu eithriadau ychwanegol i osgoi atal eu hymglymiad yn y cynllun. |

**Cwestiwn 19: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig creu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau. Byddai'r cynllun hwn ar gael i ddarparwyr sydd wedi eu heithrio o gofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. Ar ôl ystyried y manylion a datblygiad y gwaith hyd yma, a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Cymru?**

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **x** | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| **Sylwadau ategol**<br>Mae Estyn yn cydnabod y bwriad y tu ôl i ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer darparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau sydd wedi eu heithrio o gofrestriad ffurfiol. Mae gan y cynllun arfaethedig y potensial i gynyddu sicrwydd ar gyfer rhieni a gofalwyr trwy gynnig graddau o sicrwydd ansawdd ar gyfer darpariaeth anghofrestredig.<br>Fodd bynnag, mae Estyn yn ystyried bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sicrhau bod y cynllun yn cyflawni cysondeb a thegwch ar draws darparwyr. Er y gallai cymryd rhan yn y cynllun gynnig arwydd o ymrwymiad i ansawdd, heb fesurau goruchwylio neu atebolrwydd annibynnol, mae perygl y bydd safonau ac arferion diogelu amrywiol ar draws lleoliadau. I fod yn gredadwy ac yn effeithiol, rhaid i'r cynllun fynd ati i hyrwyddo ansawdd, diogelwch a hawliau plant, yn hytrach na dibynnu ar gofrestru gwirfoddol yn unig. Dylid ymgorffori mecanweithiau i fonitro a gwerthuso effaith y cynllun o'r cychwyn.<br>Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried sut bydd y cynllun yn cefnogi mynediad teg, yn enwedig ar gyfer darparwyr llai, a sicrhau nad yw'r cynllun yn creu dryswch yn anfwriadol am y gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofrestredig a darpariaeth a gymeradwywyd yn wirfoddol. |

**Rhan C – Asesiad effaith a chwestiynau gorfodol**

**Cwestiwn 20: Pa risgiau, os o gwbl, dylid eu cydnabod ymhellach o fewn yr asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio, yn eich barn chi?**

Mae Estyn yn ystyried y dylai'r asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio roi mwy o bwyslais ar rôl hyfforddiant mewn lliniaru risg a chodi safonau ar draws y sector. Mae hyfforddiant hygyrch, o ansawdd uchel, yn hanfodol i sicrhau bod darparwyr wedi'u harfogi i ddiwallu anghenion amrywiol plant yn eu gofal.
Yn benodol, dylai hyfforddiant ymdrin yn gynhwysfawr â meysydd allweddol fel diogelu, datblygiad y plentyn, cynhwysiant, a'r Gymraeg. Byddai cryfhau disgwyliadau yn y meysydd hyn yn helpu sicrhau bod pob darparwr, gan gynnwys y rhai sy'n ymuno trwy gynlluniau newydd neu wirfoddol, yn barod i gyflwyno darpariaeth ddiogel, gynhwysol ac sy'n ymatebol yn ddiwylliannol.
Heb strategaeth glir i gefnogi dysgu proffesiynol, mae perygl o anghysondeb yn ymarferol ac y bydd amddiffyniadau'n gwanhau ar draws lleoliadau anghofrestredig neu leoliadau a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut bydd hyfforddiant yn cael ei ariannu, ei gyflwyno a'i fonitro i sicrhau mynediad teg ac effaith gynaledig.

**Cwestiwn 21: Pa fanteision, os o gwbl, dylid eu cydnabod ymhellach o fewn yr asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio, yn eich barn chi?**

Mae Estyn yn ystyried y gallai'r asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio adlewyrchu manteision strategol posibl y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn llawnach. Yn benodol, mae'r cynllun yn rhoi cyfle i gyfrannu at broffesiynoli'r sector anghofrestredig, gan helpu codi safonau, cefnogi datblygu'r gweithlu, a meithrin capasiti mewn ffordd sy'n ychwanegu at ddarpariaeth reoleiddiedig bresennol.
Yn bwysig, dylid cynllunio'r cynllun i ymgorffori dull clir o ran hawliau plant, gan sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn ganolog i'r holl ddarpariaeth, ni waeth beth yw ei statws cofrestru.
Yn ychwanegol, byddai alinio â blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys Cwricwlwm i Gymru, y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a Cymraeg 2050, yn ymestyn perthnasedd, cydlyniant ac effaith y cynllun ymhellach ar draws polisi'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae hefyd yn bwysig bod manteision gwelliant parhaus yn cael eu cydnabod trwy werthusiad annibynnol cynlluniedig. Byddai hyn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i effeithiolrwydd y cynllun, yn helpu nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ac yn llywio polisi a datblygu arferion parhaus.

**Cwestiwn 22: Pa gostau, os o gwbl, dylid eu cydnabod ymhellach o fewn yr asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio, yn eich barn chi?**

Mae Estyn yn ystyried y dylai'r costau posibl i ddarparwyr o ran amser ac adnoddau gael eu cydnabod yn llawnach yn yr asesiad drafft o'r effaith ar reoleiddio. Gallai'r costau hyn fod yn hynod heriol i leoliadau llai neu'r rhai sy'n gweithredu â chapasiti cyfyngedig, ac mae perygl y gallai'r cynllun greu rhwystrau anfwriadol rhag cymryd rhan.
Yn ychwanegol, mae angen mwy o eglurder ar y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu a gweinyddu'r cynllun ei hun. Mae hyn yn cynnwys p'un ai awdurdodau lleol, AGC, neu'r ddau, fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb, a sut bydd y sefydliadau hyn yn cael eu cynorthwyo i reoli unrhyw faich gwaith ychwanegol yn effeithiol.
Heb ddealltwriaeth glir o'r goblygiadau ariannol hyn, mae perygl y gallai'r cynllun roi straen ar ddarparwyr a chyrff goruchwylio, gan danseilio'i fanteision bwriadedig, o bosibl.

**Cwestiwn 23: Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych chi ar yr asesiadau effaith drafft, yn enwedig effaith y gorchymyn drafft ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol, a phobl â nodweddion gwarchodedig (yn cynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried, yn eich barn chi)?**

Mae Estyn yn ystyried bod gan y newidiadau arfaethedig y potensial i gyflawni effeithiau cadarnhaol.
Gallai ymestyn mynediad at gymorth ariannol helpu lleihau rhwystrau i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau nad yw cost cymryd rhan, yn cynnwys ffioedd neu ofynion gweinyddol, yn cael effaith anghymesur ar ddarparwyr llai, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig neu wledig. I sicrhau deilliannau teg, bydd cynllunio gofalus, cymorth targedig ac arweiniad hygyrch yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghenion plant â nodweddion gwarchodedig a sicrhau bod darparwyr yn cael eu cefnogi'n dda i ddarparu gofal cynhwysol, o ansawdd uchel.
Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith y Gorchymyn wedi iddo gael ei roi ar waith, gan roi sylw penodol i grwpiau bregus, yn cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai y mae tlodi'n cael effaith niweidiol arnynt, a theuluoedd mewn ardaloedd sydd â darpariaeth gyfyngedig o ran gofal plant.

**Cwestiwn 24: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynnig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

Mae Estyn yn ystyried bod gan y cynnig y potensial i gefnogi'r Gymraeg, yn enwedig os caiff meini prawf a chymorth targedig cyfrwng Cymraeg eu cynnwys yn y cynllun gwirfoddol. Gallai hyn helpu ehangu mynediad at gyfleoedd gofal plant cyfrwng

Cymraeg, gan felly hyrwyddo tegwch ieithyddol gwell ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru.
I gryfhau hyn ymhellach, mae'n bwysig bod y gofrestr gyhoeddus yn nodi darparwyr cyfrwng Cymraeg yn glir. Byddai hyn yn galluogi rhieni i wneud dewisiadau gwybodus a gallai gyfrannu at godi proffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lleol. Fodd bynnag, i gyflawni'r manteision hyn, bydd yn bwysig sicrhau nad yw unrhyw ofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhoi gofynion anghymesur ar ddarparwyr llai neu ddarparwyr gwledig.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

Mae Estyn yn nodi y byddai ymgorffori disgwyliadau o ran y Gymraeg a darparu cymorth penodol ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a hyfforddiant yn Gymraeg yn helpu sicrhau nad yw'r cynllun yn trin yr iaith yn llai ffafriol.

**Cwestiwn 25: Yn eich barn chi, a allai'r cynnig gael ei ffurfio neu'i newid er mwyn gwneud y canlynol:**
**cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
**liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg?**

Mae Estyn yn ystyried nad yw'r cynnig presennol wedi cael ei ffurfio'n ddigonol eto i uchafu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae manylion cyfyngedig ar sut bydd y cynllun yn mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei thrin yn deg ochr yn ochr â'r Saesneg.
I gryfhau ei effaith bosibl, bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgorffori disgwyliadau o ran y Gymraeg yn fwy eglur o fewn dyluniad y cynllun. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys meini prawf clir ar gyfer nodi a chefnogi darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan ddarparu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n galluogi teuluoedd i ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi mynediad at hyfforddiant yn Gymraeg ar gyfer darparwyr sy'n cymryd rhan. Gallai hyn helpu lliniaru'r perygl y bydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol a byddai'n cefnogi nodau ehangach strategaeth y Gymraeg trwy hyrwyddo mynediad a natur weladwy.

**Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.**

Mae Estyn yn pryderu nad aethpwyd i'r afael o hyd â llawer o faterion pwysig. Yn benodol, mae diffyg eglurder ynglŷn â sut bydd tegwch ac ansawdd yn cael eu sicrhau mewn cynllun gwirfoddol, sut bydd canlyniadau anfwriadol yn cael eu monitro, a sut gweithredir arnynt, a

sut bydd pwysau ariannol ar ddarparwyr, yn enwedig sefydliadau bach neu elusennol, yn cael eu rheoli.

Heb fynd i’r afael â’r bylchau hyn, mae’r cynllun yn golygu bod perygl o anghysondeb mewn diogelu, darpariaeth anghyfartal ledled Cymru, a bod rhai darparwyr yn cael eu heithrio oherwydd costau ychwanegol neu faich gweinyddol.